**Cofnodion Cyfarfod o'r PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL**
**a gynhaliwyd o bell drwy fideogynadledda ddydd Iau, 17 Mawrth 2022**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Ivor Williams (Cadeirydd), y Cynghorwyr Lyndon Lloyd MBE, Dai Mason, Dan Potter, Rowland Rees-Evans, Lynford Thomas a Wyn Thomas

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorwyr Rhodri Evans, Gareth Lloyd a Ray Quant (Aelodau Cabinet)

**Swyddogion yn bresennol:** Ms Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyfreithiol a Llywodraethu a Swyddog Monitro; Mrs Dwynwen Jones, Swyddog Craffu a Mrs Dana Jones, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Safonau.

(10:00am-10:20am)

**1** **Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr John Adams- Lewis, Bryan Davies, Ceredig Davies, Gareth Davies, Endaf Edwards ac Elizabeth Evans am na fedrent ddod i'r cyfarfod.

Oherwydd trafferthion technegol, nid oedd y Cynghorydd Ifan Davies na'r Cynghorydd Keith Evans yn medru bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**2** **Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

Dim.

**3** **Adroddiad ynghylch y Polisi Cyfyngiadau Gwleidyddol ar Weithwyr Llywodraeth Leol**

Ystyriwyd yr Adroddiad ynghylch y Polisi a'r Gofrestr o ran Cyfyngiadau Gwleidyddol ar Weithwyr Llywodraeth Leol. Dywedwyd bod Adran 2, Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ("Deddf 1989") wedi sefydlu'r cysyniad o gyfyngu gweithgarwch gwleidyddol ar gyfer rhai swyddi dynodedig er mwyn sicrhau bod gweithwyr llywodraeth leol yn wleidyddol ddiduedd.

Yn unol â Deddf 1989, roedd yn ofynnol i'r Cyngor greu a chadw rhestr o'r swyddi hynny sydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol. Gan ddod i rym ar 12 Ionawr 2010, newidiodd Adran 30, Deddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009 y dull o nodi swyddi sydd â chyfyngiadau

gwleidyddol o dan Adran 2 Deddf 1989, a diddymodd y drefn o osod cyfyngiadau gwleidyddol ar staff yn sgil eu lefelau cyflog.

O ganlyniad, penderfynwyd bod angen adolygu'r Polisi Cyfyngiadau Gwleidyddol ar Weithwyr Llywodraeth Leol (a ddiweddarwyd diwethaf ym mis Ionawr 2020) ('y Polisi') oherwydd Brexit a newidiadau diweddar e.e. newidiadau i deitlau'r Swyddogion Arweiniol Corfforaethol.

Adroddwyd bod y newidiadau i'r Polisi yn cynnwys y canlynol:

- Datblygu'r esboniad o'r Swyddi Penodedig a'r Swyddi Sensitif (o dan y darn
  'Pwy sy'n cael eu heffeithio?');

- Diweddaru'r cyfeiriadau at deitlau'r Prif Weithredwr a'r Swyddogion Arweiniol
  Corfforaethol;

- Cynnwys Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a'r Swyddog Monitro /
  Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu yn y rhestr o Swyddogion Statudol a dileu '(dan Ddeddf 1989)' o 1b):

  1. Swyddi Penodedig

  b) y Prif Swyddogion Statudol (dan Ddeddf 1989)

- Yn 2. Swyddi 'Sensitif' ychwanegwyd bod y swyddi hyn hefyd yn rhai sydd o
  dan gyfyngiadau gwleidyddol.

Yn dilyn cwestiwn o'r llawr, CYTUNWYD i nodi a chymeradwyo'r newidiadau i'r Polisi Cyfyngiadau Gwleidyddol ar Weithwyr Llywodraeth Leol.

Byddai angen cael cadarnhad oddi wrth y Dirprwy Swyddog Canlyniadau a allai athro/athrawes sefyll fel ymgeisydd yn yr etholiadau a oedd ar fin cael eu cynnal, a phe byddent yn llwyddiannus, a fyddai angen iddynt wedyn roi'r gorau i'w gwaith fel athro/athrawes.

**4 Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion.**

CYTUNWYD i gadarnhau cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 07 Chwefror a 18 Chwefror 2022

**Materion yn codi**

Dim.

Dywedodd y Cadeirydd mai hwn fyddai ei gyfarfod olaf fel Cadeirydd a dymunodd y gorau i bawb at y dyfodol. Diolchodd pawb i'r Cadeirydd ac i'r holl Gynghorwyr na fyddai'n sefyll yn yr etholiadau ym mis Mai.

Rhoddwyd llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Rowland Rees-Evans am gael ei benodi'n Uchel Siryf Dyfed. Oherwydd hyn, ni fyddai'n sefyll fel Cynghorydd yn yr etholiad. Dymunodd pawb yn dda iddo.

Diolchodd y Cynghorydd Lyndon Lloyd MBE i'r holl Gynghorwyr a thîm y Gwasanaethau Democrataidd am eu cefnogaeth yn ystod ei gyfnod fel Cynghorydd.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Adnoddau Corfforaethol a gynhaliwyd ar Date Not Specified**

**Cadeirydd:**________________

**Dyddiad:**________________